



Teitl y gweithgaredd:	Gêm Tafodiaith Ryngweithiol
Disgrifiad:	Gêm paru geiriau tafodieithol â'r geiriau safonol cyfatebol.
Blynyddoedd ysgol:	CA2
Sgîl Rhaglen Astudio posib:	Llafaredd > Siarad / Gwranddo / Cydweithio a thrafod
Testun T. Llew Jones	<i>Y Gelyn ar y Trên</i>
Offer angenrheidiol:	<ul style="list-style-type: none"><li>• Copi o <i>Y Gelyn ar y Trên</i></li></ul>
Trefn a awgrymir:	<ul style="list-style-type: none"><li>• Darllenwch baragraff olaf tud. 6, 'A dyna lle'r oedd y crwt y bore hwnnw, yn pwyso ar gât y cae ac yn gwyllo'r rheilffordd.'</li><li>• Trafodwch beth yw tafodiaith a'r ffaith fod gan wahanol ardaloedd yng Nghymru eiriau gwahanol am rai pethau, e.e. crwt / hogyn / bachgen; gât, giât, clwyd.</li><li>• Holwch y dysgwyr a ydynt yn gwybod am eiriau tafodieithol eraill.</li><li>• Y dysgwyr yn chwarae'r gêm paru geiriau tafodieithol</li></ul>
Gweithgareddau gwahaniaethol:	<p>Gall y dysgwyr fynd ati i greu brawddegau mewn un dafodiaith a'u haddasu i dafodiaith arall.</p> <p>Gall y dysgwyr fynd ati i ymchwilio i dafodiaith eu hardal leol. Mae llawer o wybodaeth ar wefan BBC Cymru :</p> <p><a href="http://www.bbc.co.uk/cymru/cymraeg/safle/tafodiaith/">http://www.bbc.co.uk/cymru/cymraeg/safle/tafodiaith/</a></p>